YSGOL BRYNREFAIL

DIRPRWY BENNAETH

Ar gychwyn y tymor hwn, fe roedd yn bleser cael croesawu Mr. Arwyn Williams i'r ysgol i gychwyn yn ei swydd newydd fel Dirprwy Bennaeth yr ysgol yn dilyn ymddeoliad Ms. Eirwen Williams dros yr haf. Mae Mr. Williams yn enedigol o Borthaethwy ac yn byw erbyn hyn gyda'i deulu ifanc yn Llanfair PG. Bu'n gweithio am nifer o flynyddoedd yn ei hen ysgol, sef Ysgol David Hughes, lle y bu iddo lwyddo i gael sawl dyrchafiad a gorffen ei gyfnod yno fel Pennaeth Cynorthwyol. Croeso cynnes iawn i Mr. Williams i'r ysgol a'i chymuned a dymuniadau gorau iddo yn ei rôl allweddol yn Ysgol Brynrefail.

Mr Eifion Jones, Pennaeth